GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Ein cyf / Our ref: MB/LH/786
Eich cyf / Your ref:
☎: 01248 384910
Gofynnwch am / Ask for: Mary Burrows
Ffacs / Fax: 01248 384937
E-bost / Email: mary.burrows@wales.nhs.uk
Dyddiad / Date: 16 Tachwedd/November 2011

Annwyl Gydweithiwr

PAR: MAE GOFAL IECHYD YNG NGOGLEDD CYMRU YN NEWID

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i'ch diweddaru ar y cynlluniau lleol rydym yn eu gwneud fel ymateb i'r heriau cyfredol sy'n wynebu'r GIG. Mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Law yn Llaw at Iechyd' a rennais gyda chi ar ddechrau Tachwedd. Mae ein cynlluniau yn rhan o ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori a fydd yn rhedeg dros y chwe mis nesaf, yn adeiladu ar lawer o'r gwaith ymgysylltu sydd wedi'i wneud hyd yma.

Mae'n bosibl bydd y cynnwys eisoes yn gyfarwydd i rai ohonoch drwy eich ymgysylltiad, ond meddyliais y byddai'n ddefnyddiol dod â'r llinynnau ynghyd a rhoi diweddariad i chi o'r sefyllfa gyfredol.

Ein nod
Y Nod Driphlyg sy'n ein harwain. Mae angen i ni wneud yn siŵr y gallwn gadw'r tair elfen yn gytbwys, sef:

- I wella iechyd y boblogaeth
- I ddarparu profiad ardderchog i gleifion gan ostwng niwed, gwella safonau a gwneud yn siŵr fod gwasanaethau'n ddibynadwy.
- I gynnal neu ostwng ein costau gan ddefnyddio adnoddau cyhoeddus i'r eithaf

Yr achos dros newid
Mae nifer o gyfleoedd ar gael i ni fel Bwrdd Iechyd integredig. Dros y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi adolygu nifer o'n gwasanaethau. Mae hyn yn arwydd bod angen i ni bob amser fod yn ystyriol i ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel nawr ac yn y dyfodol. Arweiniwyd yr adolygiadau hyn gan feddygon a staff clinigol trwy drafodaethau gydag ystod eang o gydweithwyr a phartneriaid. Mae budd-ddeiliaid a grwpiau cymunedol gyda diddordeb mewn gwasanaethau penodol hefyd wedi bod yn gysylltiedig.

Gyda'n gilydd, rydym wedi rhannu ein barn, wedi edrych ar y dystiolaeth ac ystyried profiadau eraill. Mae'r gwaith hwn wedi dangos bod cytundeb eang am yr angen am newid. Rydym hefyd wedi edrych ar syniadau a datrysiadau posibl i'r heriau sy'n wynebu'r GIG.

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Mae dadansoddiad yn dangos nad yw ceisio cynnal y sefyllfa bresennol er budd pobl Gogledd Cymru ac mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hyn. Er enghraifft, y newyddion da yw bod pobl yn byw'n hirach. Golyga hyn efallai bod arnynt angen gofal mwy cymhleth i gynnal ansawdd y bywyd maen nhw'n ei ddisgwyl. Mae angen i ni ymateb i hynny.

Gwyddwn fod salwch oherwydd lefelau ysmygu a phryderon iechyd cyhoeddus eraill (megis lefelau o ordewdra a gor-yfed) yn creu mwy o alw am ofal, a fydd angen ei ymdrin trwy ymyriadau iechyd cyhoeddus da.

Mae gwyddoniaeth feddygol yn datblygu'n sydyn gyda mwy o driniaethau ar gael, ond ar hyn o bryd nid ydym yn darparu gwasanaeth cyson ar draws Gogledd Cymru sy'n ein caniatáu i ddatblygu i mewn i feysydd eraill o driniaeth ac ymyriad. Mae gennym enghreifftiau ardderchog o ymarfer da, ond mae cleifion yn dweud wrthym am eu profiadau sydd ddim bob amser yn adlewyrchu'r hyn rydym ni'n ei gredu rydym wedi'i ddarparu. Mae canlyniadau triniaeth yn parhau i fod yn amrywiol.

Rydym yn wynebu heriau recriwtio a chadw staff meddygol a chlinigol eraill. Nid yw hyn yn unigryw i ni, ond fe all fod yn anoddach o ystyried ein lleoliad. Mae arnom angen gweithlu gwydn a chynaliadwy all ddarparu'r gofal y maen nhw eisiau ei roi a ddim gwasgaru eu hunain ormod. Mae'r risg i ni i gyd yn rhy uchel os na allwn fynd i'r afael â hyn.

Byddwch hefyd yn ymwybodol fod y sefyllfa ariannol fyd-eang a chyflwr cyllidebau cyhoeddus y DU yn dweud wrthym fod angen i ni fyw o fewn ein gallu. Felly ni allwn barhau i geisio gwneud mwy o'r hyn rydym wastad wedi'i wneud. Nid gweithio'n galetach yw'r ateb. Gyda'n gilydd mae angen trafodaeth agored a gonest ynghylch edrychiad GIG llewyrchus.

Yn atodedig i'r llythyr hwn mae crynodeb o'r adolygiadau hyd yma. Cymerwch yr amser i'w ddarllen.

Mae eich ymglymiad yn hanfodol.

Beth mae hyn yn ei olygu

Gan ein bod eisiau gwella diogelwch ac ansawdd ein gwasanaethau trwy leihau gwastraff, niwed ac amrywiaeth, mae angen i ni roi'r gorau i feirniadu safonau gofal yn nhermau gwelyau ac adeiladau. Yn lle hynny gadewch i ni edrych ar y gwasanaethau a'r canlyniadau iechyd ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth a ddylai ddiffinio'r gorau o'r GIG.

Mewn argyfwng economaidd byd-eang, mae angen i ni ddefnyddio ein hadnoddau'n fwy effeithiol. Bydd hyn yn golygu y bydd staff y GIG, awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid eraill yn cydweithio i ddarparu gwell gwasanaethau ar gyfer y cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu. Mae'n rhaid i ni herio ein hunain ynghylch sut rydym yn defnyddio arian cyhoeddus i gael y budd mwyaf ohono.

Gall y cyhoedd ac arweinwyr cymunedol ddeall pam bod angen i ni newid ac mae'n rhaid iddynt fod yn rhan o sut bydd hyn yn cael ei wneud yn y dyfodol.

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Beth sy'n digwydd nesaf?
Bydd y Bwrdd Iechyd yn gofyn i'r timau prosiect i barhau i ymgysylltu gyda chlinigwyr a budd-ddeiliaid i ateb y tair elfen o'r Nod Driphlyg:

- Fyddwn ni'n gwella iechyd y boblogaeth trwy ein syniadau?
- Fyddwn ni'n cwrdd â gofynion diogelwch, safonau, ansawdd a dibynadwyedd a gwella profiad y claf trwy ein syniadau?
- Fyddwn ni'n dangos ein bod yn gallu cynnal a/neu ostwng costau trwy ein syniadau?

Unwaith bydd y syniadau hyn wedi'u mireinio a'u dwyn ynghyd, bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd i'w trafod. Os bydd newidiadau arwyddocaol i'r ffordd y darperir gwasanaethau yn cael eu hargymell, byddant yn cael eu cyflwyno am ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn y Flwyddyn Newydd.

Dyma'ch cyfle chi i fod yn gysylltiedig. Dewch i ymuno yn y ddadl.

Ewch i wefan BIPBC: www.pbc.cymru.nhs.uk
O'r 24ain o Dachwedd, e-bostiwch eich sylwadau at:
Cymraeg: ymunwch@wales.nhs.uk
Saesneg: jointhedebate@wales.nhs.uk

Yr eiddoch yn gywir,

M Burrows.

MARY BURROWS
PRIF WEITHREDWR

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned

Rydym eisiau i bobl dderbyn gofal o ansawdd uchel yn y lle mwyaf priodol, yn agos at eu cartrefi lle bynnag sy'n bosibl. Pan fydd pobl angen gofal arbenigol, rydym eisiau ein hysbytai i gynnig mynediad cyflym at wasanaethau o'r radd flaenaf.

Gallwn ond gwneud hyn os ydym yn newid y ffordd y darperir gofal, yn yr ysbyty ac yn ein cymunedau. Mae angen i ni ganolbwyntio ar ba wasanaethau y gallwn eu darparu'n lleol, yn ddiogel a chynaliadwy.

I wneud hyn mae angen i ni weithio'n agos gyda Meddygon Teulu a gwasanaethau awdurdod lleol, yn arbennig gofal cymdeithasol. Rydym wedi sefydlu 14 cymdogaeth ar draws Gogledd Cymru, bob un gyda phoblogaeth o 30 – 50,000 o bobl:



Mae'r cymdogaethau hyn wedi'u cytuno gyda'n partneriaid Awdurdod Lleol. Bydd Meddygfeydd MT, timau gofal iechyd cymunedol y Bwrdd Iechyd a staff gwasanaethau cymdeithasol ym mhob cymdogaeth yn cydweithio i ddatblygu gwasanaethau sydd fwyaf priodol i'r ardal a'i phobl. Bydd y rhain yn ein helpu ni i ofalu am fwy o bobl yn eu cymunedau eu hunain a lleihau'r angen i bobl fynd i mewn i'r ysbyty.

Cyfeiriad Gohebiaeth ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr / Correspondence address for Chairman and Chief Executive:
Swyddfa'r Gweithredwyr / Executives' Office
Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd
Bangor, Gwynedd LL57 2PW
Gwefan: www.pbc.cymru.nhs.uk **/ Web:** www.bcu.wales.nhs.uk

Byddwn hefyd yn symud mwy o wasanaethau o'n Hysbytai Cyffredinol Dosbarth i'r gymuned, gan gynnwys gwasanaethau cleifion allanol, gwasanaethau therapi, a phrofion diagnostig.

Ysbyty Glan Clwyd

Rydym yn ymrwymedig i'r tri ysbyty cyffredinol dosbarth ac mae gan bob un rôl allweddol i ddarparu gofal iechyd. Y cam mawr cyntaf yw cadarnhau ein hymrwymiad i Ysbyty Glan Clwyd trwy geisio cymeradwyaeth o'r Cynllun Busnes Llawn yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd ar y 24ain o Dachwedd 2011. Bydd hyn yn golygu buddsoddi oddeutu £90 miliwn i gael gwared â'r asbestos ac adnewyddu'r ysbyty.

Bydd ymgymryd â'r gwaith hwn yn cynnwys stripio llawer o'r hen adeilad yn ôl i'r ffrâm dur. Bydd hyn yn rhoi cyfle unigryw i wella gofal claf a chyflawni gwell effeithlonrwydd trwy ad-drefnu'r wardiau a'r adrannau. Bydd y rhaglen waith yn cymryd tan 2018. Bydd gwaith yr arolygon gwasanaeth yn ein helpu i siapio'r ystod o wasanaethau a ddarperir yn yr ysbyty a sut bydd yn gweithio gydag ysbytai a'n cymunedau yng Ngogledd Cymru.

Gwasanaethau Mamolaeth, Newydd-eni a Gynecoleg

Dyma'r prif faterion sydd wedi codi o'r trafodaethau hyd yma:

- Mae angen i ni wella gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol i daclo gordewdra, ysmygu, beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau, pwysau genedigaeth isel a'r niferodd sy'n derbyn sgrinio serfigol;
- Mae angen i ni gryfhau asesiad a gwasanaethau gofal dydd ar gyfer mamau ac yn arbennig ar gyfer mamau hŷn a merched gydag anghenion iechyd cymhleth;
- Mae'r Deondy (y corff sy'n gyfrifol am hyfforddi meddygon) wedi nodi ei fod yn annhebygol y gall Gogledd Cymru gynnal hyfforddiant ar fwy na dau safle ysbyty gyda'r gyfradd genedigaethau cyfredol;
- Rydym eisiau annog mwy o ferched o Ogledd Powys, a'r rhai sy'n defnyddio'r Ysbyty Countess of Chester, i aros yng Nghymru i roi genedigaeth. Gallai hyn olygu y bydd gennym niferoedd digonol o enedigaethau i ddarparu gofal yn fwy lleol ac i ymdrin â phryderon y Deondy ynghylch hyfforddiant.

Gwasanaethau Iechyd Plant

Dyma'r prif faterion sydd wedi codi o'r trafodaethau hyd yma:

- Mae yna amrywiaeth mewn canlyniadau iechyd plant ar draws Gogledd Cymru sy'n gysylltiedig ag amddifadedd, heriau cymdeithasol ac economaidd
- Mae cefnogi dechreuad da i fywyd yn sail hanfodol i iechyd da gydol oes mewn partneriaeth â mentrau ysgolion iach, mentrau'r nyrs ysgol a phartneriaethau plant a phobl ifanc.
- Mae gordewdra ac ysmygu yn gyffredin iawn ymysg poblogaeth Gogledd Cymru, ac fe all hyn effeithio ar farwolaethau'r newydd anedig, abnormaleddau genedigol a phwysau genedigaeth isel all fod angen derbyn gofal newydd-eni.
- Mae cyfraddau anafiadau mewn plentyndod yn llawer uwch mewn rhai rhannau o Ogledd Cymru gyda'r rhan fwyaf o anafiadau i blant 0 – 5 oed yn digwydd yn y cartref. Mae anafiadau gan fwyaf yn achos salwch y gellir ei atal ac mae'n cael effaith fawr ar ddefnydd y gwasanaeth iechyd gan blant a phobl ifanc.

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Gwasanaethau Llawfeddygol Cyffredinol

Mae'r adolygiad hwn wedi elwa o ymweliad annibynnol ac adroddiad gan Fwrdd Materion Proffesiynol (Cymru) o Goleg Brenhinol y Llawfeddygon. Mae'r Coleg Brenhinol wedi mynegi barn gyffredinol bod gwasanaethau llawfeddygaeth frys ar hyn o bryd yn is na'r safonau dymunol ledled y DU.

Mae'r prif faterion a godwyd o'r adolygiad o wasanaethau lleol hyd yma yn cynnwys:

- Fel yr amlygwyd ar lefel DU, amrywiaeth mewn cydymffurfiad gyda'r safonau dymunol
- Heriau sy'n deillio o is-arbenigo'r gweithlu meddygol
- Mae'n rhaid i ni ystyried y cysylltiadau rhwng y gwasanaethau. Mae angen gwaith manwl pellach.

Orthopaedeg

Y prif yrwyr ar gyfer newid o fewn Orthopaedeg dros y 5 mlynedd nesaf yw:

- Rhagolwg o gynnydd o 30% mewn anghenion cleifion
- Cynyddu is-arbenigo clinigol
- Ystod arbenigol a chost cynyddol o ymyriadau
- Ffocws cynyddol ar atal llithriadau, bagladau a chwympiadau

Dyma'r prif faterion sydd wedi codi o'r trafodaethau hyd yma:

- Gwelliannau penodol i lwybrau gofal cleifion, yn enwedig adferiad ac ail-alluogi ar ôl llawdriniaeth sy'n golygu bod cleifion yn gwella'n gynt ac yn treulio llai o amser yn yr ysbyty
- Gwelliannau mewn cynhyrchaeth ac effeithlonrwydd y gwasanaethau gweithredol cyfredol
- Dychwelyd cleifion sy'n cael eu trin yn Lloegr yn ôl i Ogledd Cymru lle mae'n gwneud synnwyr clinigol ac ariannol
- Mae'n rhaid i ni ystyried y cysylltiadau rhwng orthopaedeg, trawma a llawfeddygaeth gyffredinol dewisol. Mae angen gwaith manwl pellach i archwilio'r berthynas rhwng y gwasanaethau hyn.